

RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL: 21/2020
DYDDIAD CYHOEDDI: 26/03/2020

Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol?

Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 19

Mae amddifadedd materol yn fesur o dlodi ac effaith hynny (sef, i ba raddau mae pobl yn gallu fforddio pethau sylfaenol fel bwyd a gwres). Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn cynnwys cyfres safonol o gwestiynau am amddifadedd materol bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau'r Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd yn **2018-19**. Mae'n diweddarau'r [dadansoddiad blaenorol a oedd yn seiliedig ar arolwg 2014-15](#).

Prif ganfyddiadau

Gan gadw pob ffactor arall yn gyson¹, canfuwyd bod y ffactorau isod yn gysylltiedig â byw ar aelwyd mewn **amddifadedd materol**.

- **Menywod**, o'u cymharu â dynion
- **Pobl 45-54 oed**, o'u cymharu â rhai iau neu hŷn
- **Dim cymwysterau**
- **Cyflwr hirdymor cyfyngol**
- **Bodlonrwydd isel ar fywyd**
- **Lles meddyliol isel**
- Byw mewn **tai cymdeithasol**, o'i gymharu â byw mewn tai rhent preifat neu fod yn berchen-feddianwyr
- **Plant yn byw ar yr aelwyd**
- Dim **mynediad i'r rhynggrwyd** ar yr aelwyd
- Aelodau'r aelwyd heb **gar at eu defnydd**.

Dyma'r ffactorau yn ein gwaith dadansoddi y canfuwyd **nad** ydynt yn gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol: cyfeiriadedd rhywiol; crefydd; ethnigrwydd; cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon; statws priodasol; ac a yw'r unigolyn yn byw mewn ardal drefol neu wledig. Fel sy'n wir am bob dadansoddiad fel hyn, nid ydym yn gallu priodoli achos ac effaith na chaniatáu ar gyfer ffactorau nad ydynt wedi cael eu mesur yn yr arolwg.

¹ Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau yn y gwaith dadansoddi hwn. Felly, hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (ee iechyd cyffredinol ac oedran), gellir archwilio'r cyswllt rhwng pob ffactor a bod mewn amddifadedd materol yn annibynnol.


1. Y Cefndir	3
2. Y Mesur a ddefnyddiwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru	3
3. Dull dadansoddi	4
4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol	6
4.1 Dadansoddi	8
4.1.1 Ffactorau demograffig	8
<i>Rhywedd</i>	8
<i>Grŵp oedran</i>	8
<i>Cyrhaeddiad addysgol</i>	9
4.1.2 Ffactorau iechyd	9
<i>A oes gan unigolyn gyflwr hirdymor cyfyngol</i>	9
4.1.3 Ffactorau llesiant	9
<i>Bodlonrwydd cyffredinol ar fywyd</i>	9
<i>Llesiant meddyliol</i>	10
4.1.4 Nodweddion yr aelwyd	10
<i>Deiliadaeth</i>	10
<i>Presenoldeb plant ar yr aelwyd</i>	10
<i>A oes rhyngrwyd ar yr aelwyd</i>	11
<i>A oes gan aelodau'r aelwyd gar neu fan at eu defnydd</i>	11
4.2 Y ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol	11
5. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil	12

1. Y Cefndir

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am dargedau a materion hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau a rhanddeiliaid, a dilyn dull mwy cydlynol a chydgyssylltiedig o wneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni, mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith o nodau llesiant² (**Ffigur 1**).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n mesur sut mae'r nodau llesiant yn cael eu cyflawni. Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn mesur cynnydd yn erbyn 15 o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Mae'r arolwg yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb â hapsampl o 12,000 o bobl o bob cwr o Gymru bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar [Ddangosydd Cenedlaethol 19: 'Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol'](#).



Ffigur 1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: saith nod llesiant².

2. Y cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol

Mae amddifadedd materol yn fesur sydd wedi'i gynllunio i gyfleu canlyniadau tlodi hirdymor ar aelwydydd, yn hytrach na straen ariannol yn y tymor byr. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn defnyddio dull safonol i fesur amddifadedd materol, yr un dull a ddefnyddir yn [Arolwg o Adnoddau Teulu](#) sy'n arolwg ledled y DU.

Gofynnwyd i oedolion nad oeddent yn bensiynwyr a oeddent wedi cael pethau fel 'gwylliau oddi cartref am o leiaf wythnos y flwyddyn', 'digon o arian i gadw eu cartref mewn cyflwr priodol o ran addurn' neu a oeddent yn gallu 'cynilo £10 y mis neu fwy yn rheolaidd'. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar a oeddent yn gallu fforddio'r eitemau hyn ar eu cyfer eu hunain neu'r aelwyd.

Gofynnwyd cwestiynau gwahanol i bensiynwyr, er enghraifft, a oedd eu 'cartref yn ddigon cynnes' a oeddent yn gallu 'defnyddio car neu dacsï pan oedd angen', neu a oeddent yn cael 'mynd i wneud eu gwallt neu i dorri eu gwallt yn rheolaidd'. Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent yn gallu fforddio pob eitem beth oedd y rheswm am hynny, ee a oedd hyn oherwydd iechyd gwael, neu oherwydd nad oedd ganddynt unrhyw un i'w helpu, ac ati. Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud mwy â'r unigolyn na'r aelwyd.

Rhodddwyd sgôr i'r rhai nad oedd ganddynt yr eitemau hyn. Er enghraifft, os nad oedd ganddynt unrhyw eitem ar y rhestr, byddent yn sgorio 100, ac os oedd ganddynt bob eitem, byddent yn sgorio 0. Roedd pobl nad oeddent yn bensiynwyr ac a oedd wedi cael sgôr o 25 neu uwch, yn cael eu hystyried mewn amddifadedd materol ac roedd pensiynwyr a oedd wedi cael sgôr o 20 neu uwch yn cael eu hystyried

² Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion, sydd ar gael [ar-lein](#).

mewn amddifadedd. Mae rhagor o fanylion am y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gael [yma](#).

Mae mesurau amddifadedd pensiynwyr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr yn cael eu cyfuno er mwyn cael newidyn amddifadedd 'oedolyn' (yn cynrychioli unigolion neu aelwydydd, yn dibynnu ar y cyd-destun) a'r mesur cyfun hwn sydd wedi cael ei ddefnyddio yn yr adroddiad.

Roedd cyfanswm o 14% o oedolion yng Nghymru yn cael eu hystyried mewn amddifadedd materol.


3. Dull dadansoddi

Er mwyn cael dealltwriaeth glir o sut mae ffactorau penodol yn cyfrannu at amddifadedd materol, rydym wedi defnyddio **techneg ystadegol³ i edrych ar y cysylltiad⁴ rhwng pob ffactor a phobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol, gan gadw pob ffactor arall yn gyson**. Mae cadw pob ffactor arall yn gyson (cyfeirir at hyn fel rheoli ffactorau eraill hefyd) yn bwysig oherwydd mae'n caniatáu i ni edrych ar bob ffactor rhagfynegi yn annibynnol (hynny yw, sicrhau nad oes ffactorau allanol yn dylanwadu ar yr effaith rydym yn ei mesur).

Er enghraifft, gallem edrych ar y cysylltiad rhwng dau ffactor ar wahân (oedran a phlant ar yr aelwyd) a phobl mewn amddifadedd materol. Efallai ein bod ni'n gwybod bod cysylltiad rhwng oedran a phobl mewn amddifadedd materol. Fodd bynnag, gallai fod cysylltiad rhwng oedran unigolyn ac a oes plant yn byw ar yr aelwyd neu beidio (gweler **Ffigur 2**). Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n anodd penderfynu a oes cysylltiad rhwng pobl mewn amddifadedd materol ac oedran neu blant ar yr aelwyd. Er mwyn edrych ar effaith un ffactor (ee oedran) ar bobl mewn amddifadedd materol, byddai arnom angen rheoli effaith pob ffactor arall. Mae modd i ni gael syniad llawer gwell o sut mae un ffactor unigol yn gysylltiedig â bod mewn amddifadedd materol, heb ddylanwad ffactorau eraill.

Cymhlethdod y cysylltiadau rhwng ffactorau

Er mwyn deall y canlyniadau hyn, ni allwn bob amser fod yn sicr ynghylch pa ffactorau sydd â *chysylltiad* â phobl mewn amddifadedd materol pha ffactorau y mae pobl mewn amddifadedd materol yn *effeithio arnynt*. Mae'r berthynas hon yn amlwg yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol ar gyfer rhai ffactorau. Er enghraifft, gallai bod yn oedran penodol fod yn gysylltiedig â bod mewn amddifadedd materol; ond, rydym yn gwybod nad yw amddifadedd materol yn newid oedran rhywun. Fodd bynnag, nid yw'r berthynas mor amlwg ar gyfer ffactorau



Ffigur 2. *Pwysigrwydd cadw pob ffactor arall yn gyson wrth ddadansoddi ystadegau.*

³ Atchweliad logistaidd yw'r enw ar hyn. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr [adroddiad methodoleg atchweliad a'r adroddiad technegol](#).

⁴ Mae'r dadansoddiad hwn yn gallu dweud wrthym am *debygolïaeth* perthnasoddd rhwng ffactorau, ond ni all ddweud wrthym am berthnasoddd anffurfiol (ee byddai'n anghywir dweud bod llesiant meddyliol isel *achosi* i bobl fod mewn amddifadedd materol).

eraill. Er enghraifft, gallai llesiant meddyliol isel achosi i bobl fod mewn amddifadedd materol, neu gallai bod mewn amddifadedd materol achosi llesiant meddyliol isel: gallai'r berthynas weithio ddwy ffordd hefyd⁵.

Dehongli'r canlyniadau


Mae'r holl ffactorau a gyflwynir yn y siartiau yn yr adroddiad hwn yn rhagfynegyddion ystadegol arwyddocaol o fyw mewn amddifadedd materol, fel sydd wedi'u profi gan y model atchweliad rydym wedi'i ddewis. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio 'ymylon rhagfynegi' – sy'n cael eu cyflwyno fel canrannau (%) – i ddangos y tebygolrwydd o berthynas rhwng pob ffactor (gan gadw pob ffactor arall yn gyson) a'r newidyn dibynnol (byw mewn amddifadedd materol). Mae'r canlyniadau yn dangos pa mor debyg yw un grŵp 'cyffredin' o bobl â nodwedd a rennir (ee menywod) o fyw mewn amddifadedd materol, o'i gymharu â grŵp 'cyffredin' arall o bobl â nodwedd wahanol a rennir (ee dynion) mewn un ffactor penodol (ee rhyw). Mae bariau ansicrwydd ar y siartiau yn dangos y cyfwng hyder o 95% ar gyfer yr ymylon rhagfynegi i bob grŵp. Mae bariau ansicrwydd sy'n gorgyffwrdd yn golygu nad yw hi'n gwbl glir pa grŵp yn y ffactor yw'r mwyaf rhagfynegol, er bod ffactor yn rhagfynegydd arwyddocaol o fyw mewn amddifadedd materol.

⁵ Gall y berthynas hon fod yn hyd yn oed mwy cymhleth, oherwydd gallai fod ffactorau eraill nad ydym wedi'u hystyried eto (ac nad ydynt ar gael gan yr Arolwg Cenedlaethol) a allai fod yn gysylltiedig ag amddifadedd materol a llesiant meddyliol isel.


4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol

Roedd cyfanswm o 14% o oedolion yn cael eu hystyried yn oedolion a oedd yn byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol. Mae Ffigur 3.1 yn dangos yr holl ffactorau unigol (**gan gadw pob ffactor arall yn gyson**) a oedd wedi'u canfod yn nodweddiadol o bobl a oedd yn byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol. Mae'r grŵp gyda'r tebygolrwydd mwyaf o fyw mewn amddifadedd materol wedi'i amlygu mewn glas golau ar gyfer pob ffactor. Caiff pob un o'r ffactorau hyn eu dadansoddi'n fwy manwl yn yr adrannau canlynol.

Ffigur 3.1 Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol.



Ffigur 3.1 (parhad) Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol.



4.1 Dadansoddi


Gan gadw pob ffactor arall yn gyson, canfuwyd bod y ffactorau a'r themâu cysylltiedig canlynol yn gysylltiedig â byw ar aelwyd mewn amddifadedd materol. Mae ffactorau unigol sy'n rhannu nodweddion tebyg yn cael eu grwpio yn ôl **themâu** (ee ffactorau demograffig). Rhestrir y ffactorau y canfuwyd **nad** oeddent yn gysylltiedig â phobl mewn amddifadedd materol yn [Adran 4.2](#).

4.1.1 Ffactorau demograffig

Rhyw

Canfuwyd bod **menywod** yn fwy tebygol o fod yn byw mewn amddifadedd materol, o'u cymharu â dynion. Gweler **Ffigur 4.1**.


Ffigur 4.1 Y berthynas rhwng amddifadedd materol a rhyw.



Grŵp oedran

Pobl **45-54** oed oedd y grŵp oedran mwyaf tebygol o fod yn byw mewn amddifadedd materol, yna pobl **35-44** oed a phobl **25-34** oed. Pobl 75 oed a hŷn oedd y lleiaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol. Gweler **Ffigur 4.2**.


Ffigur 4.2 Y berthynas rhwng bod mewn amddifadedd materol a grŵp oedran.



Cyrhaeddiad addysgol

Ar y cyfan, roedd pobl **heb gymwysterau** yn fwy tebygol o fod yn byw mewn amddifadedd materol na phobl gyda rhyw fath o gymhwyster. Roedd pobl a oedd wedi cael cymhwyster addysg uwch yn llai tebygol o fod mewn amddifadedd materol. Gweler **Ffigur 4.3**.

Ffigur 4.3 Y berthynas rhwng bod mewn amddifadedd materol a chyrhaeddiad addysgol.




4.1.2 Ffactorau iechyd

Anabledd, gwendid neu salwch hirsefydlog

Roedd pobl â **chyflwr hirdymor cyfyngol** yn fwy tebygol o fyw mewn amddifadedd materol, o'u cymharu â'r bobl heb gyflwr o'r fath. Gweler **Ffigur 4.4**.

Ffigur 4.4 Y berthynas rhwng bod mewn amddifadedd materol a chael chyflwr hirdymor cyfyngol.




4.1.3 Ffactorau llesiant

Bodlonrwydd cyffredinol ar fywyd

Ar y cyfan, roedd pobl â **bodlonrwydd isel neu ganolig ar fywyd** yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol o'u cymharu â'r rhai a oedd yn teimlo bodlonrwydd uchel neu uchel iawn ar fywyd. Pobl â bodlonrwydd isel ar fywyd oedd â'r tebygolrwydd mwyaf o fyw mewn amddifadedd materol, a'r bobl oedd yn teimlo bodlonrwydd uchel iawn ar fywyd oedd â'r tebygolrwydd lleiaf o fod mewn amddifadedd materol. Gweler **Ffigur 4.5**.

Ffigur 4.5 Y berthynas rhwng bod mewn amddifadedd materol a bodlonrwydd cyffredinol ar fywyd.




Llesiant meddyliol

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys mesur ar gyfer llesiant meddyliol⁶.

Wrth ddefnyddio'r mesur hwn, roedd pobl â **llesiant meddyliol isel** yn fwy tebygol o fod yn byw mewn amddifadedd materol, o'u cymharu â'r rheini â llesiant canolig neu uchel. Pobl â llesiant meddyliol uchel oedd y lleiaf tebygol o wynebu amddifadedd materol. **Gweler Ffigur 4.6.**

Ffigur 4.6 Y berthynas rhwng bod mewn amddifadedd materol a llesiant meddyliol.




4.1.4 Nodweddion yr aelwyd

Deiliadaeth

Ar y cyfan, roedd **pobl a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol** yn fwy tebygol o fod yn byw mewn amddifadedd materol, o'u cymharu â phobl a oedd yn berchen ar eu tŷ neu a oedd yn rhentu'n breifat. Perchnogion-feddianwyr oedd y grŵp lleiaf tebygol o fod yn wynebu amddifadedd materol. **Gweler Ffigur 4.7.**


Ffigur 4.7 Y berthynas rhwng bod mewn amddifadedd materol a deiliadaeth.



Presenoldeb plant ar yr aelwyd

Roedd pobl a oedd ag un neu ragor o **blant yn byw ar yr aelwyd** yn fwy tebygol o fod yn byw mewn amddifadedd materol, o'u cymharu â phobl heb blant ar eu haelwyd. Gweler **Ffigur 4.8.**

Ffigur 4.8 Y berthynas rhwng bod mewn amddifadedd materol a phresenoldeb plant ar yr aelwyd.




⁶ Datblygwyd graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Edinburgh i allu monitro llesiant meddyliol y boblogaeth gyffredinol a gwerthuso prosiectau, rhaglenni a pholisïau sy'n ceisio gwella llesiant meddyliol. I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y ddolen hon.

A oes rhyngrwyd ar yr aelwyd

Roedd pobl **heb fynediad i'r rhyngrwyd ar eu haelwyd** yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol, o'u cymharu â'r rhai a oedd â mynediad i'r rhyngrwyd. **Gweler Ffigur 4.9.**


Ffigur 4.9 Y berthynas rhwng bod mewn amddifadedd materol ac a oes rhyngrwyd ar yr aelwyd.



A oes gan aelodau'r aelwyd gar neu fan at eu defnydd

Roedd pobl a oedd yn byw ar aelwydydd **heb gar neu fan at eu defnydd** yn fwy tebygol o fod yn byw mewn amddifadedd materol, o'u cymharu â'r rhai a oedd â mynediad i gludiant personol (**Ffigur 4.10**).

Ffigur 4.10 Y berthynas rhwng bod mewn amddifadedd materol ac a oes gan aelodau'r aelwyd gar neu fan at eu defnydd.



4.2 Y ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn byw ar aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol

Yn y dadansoddiad hwn, roedd ffactorau eraill wedi'u cynnwys yn ein model atchweliad, ond **ni** wnaethom ganfod cysylltiad rhwng y ffactorau canlynol a'r tebygolrwydd o fyw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol⁷:

- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd
- Ethnigrwydd
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon
- Statws priodasol
- A yw rhywun yn byw mewn ardal drefol neu wledig.

⁷ Ystyriwyd ardal awdurdod lleol yn yr adroddiad hwn hefyd, ond nid oedd yn gydnaws â'r technegau felly cafodd y ffactor hwn ei dynnu o gamau diweddarach y gwaith dadansoddi.

5. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil

Yn gryno, rydym wedi dadansoddi ffactorau unigol (a themâu cyffredinol) sy'n gysylltiedig â **Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 19: 'Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol'**.

Roedd pedair thema⁸ wedi dod i'r amlwg yn ein dadansoddiad o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd o fyw ar aelwyd mewn amddifadedd materol:

1. Ffactorau demograffig
2. Iechyd cyffredinol
3. Ffactorau llesiant
4. Nodweddion yr aelwyd.

Gallai'r berthynas rhwng ffactorau ac amddifadedd materol fod yn fwy cymhleth na'r hyn a awgrymir yn y dadansoddiad hwn, a gallai'r canlyniadau **amrywio** rhwng ac o fewn gwahanol ardaloedd. Er mwyn helpu i wneud synnwyr o'r berthynas gymhleth hon, gallai rhagor o ymchwil gynnwys mwy o ymchwiliadau ar raddfa fach a fyddai'n cynnwys dulliau ansoddol⁹ neu gymysg¹⁰.

⁸ Gyda'i gilydd, roeddem wedi edrych ar ffactorau a oedd yn gysylltiedig â **7 Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer Llesiant** fel rhan o brosiect yn defnyddio data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19. Canfuwyd bod rhai ffactorau yn gysylltiedig â mwy nag un Dangosydd Cenedlaethol, felly rydym wedi darparu dogfen ar wahân sy'n tynnu sylw at y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ffactorau unigol, a'r themâu cyffredinol, y canfuwyd sy'n gysylltiedig â'r holl Ddangosyddion Cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein: Hafferty, C. (2020). *Themâu allweddol sy'n gysylltiedig â detholiad o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019>.

⁹ Defnyddir **ymchwil ansoddol** yn aml i ddeall rhesymau, safbwyntiau a chymhelliant sylfaenol pobl; er mwyn gweld y tueddiadau sydd o ran meddyliau a safbwyntiau pobl er mwyn i ni ddeall mater penodol yn well. Mae dulliau casglu data ansoddol yn aml yn ddulliau ar raddfa fach, sy'n casglu data heb fod yn rhifol drwy ddefnyddio technegau fel cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Ar y llaw arall, mae ymchwil *feintiol* yn ceisio deall problem drwy gasglu data rhifol y gellir eu defnyddio wrth ddadansoddi ystadegau, yn aml er mwyn cynhyrchu canlyniadau cyffredinol ar gyfer sampl fawr o boblogaeth (ee agweddau, ymddygiad a safbwyntiau). Er enghraifft, dyma sut mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth yn bennaf.

¹⁰ Mae **'dulliau cymysg'** yn ddull ymchwil sy'n cynnwys casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol yn yr un astudiaeth. Wrth i lunwyr polisïau, ymarferwyr a phobl eraill mewn meysydd cymhwysol anelu at baratoi ymchwil seiliedig ar wybodaeth ar sail sawl math o dystiolaeth, er enghraifft llesiant cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol, sy'n cynnwys sawl agwedd, gall ymchwil dulliau cymysg fod yn ffordd bwysig a soffistigedig o archwilio'r sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth hyn mewn amryw o **wahanol ffyrdd**.

Awdur yr Adroddiad: Caitlin Hafferty.



Safbwyntiau'r ymchwilyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Siobhan Evans

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Siobhan.Evans@gov.wales

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGI © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-355-5